# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 21 Mawrth 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(55)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd y 12 cwestiwn.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd y 13 cwestiwn. Cafodd Cwestiynau 2 a 12 eu grwpio i gael eu hateb gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd.

**Datganiad gan y Llywydd**

Cyhoeddodd y Llywydd fod Mick Antoniw wedi ennill ballot yr Aelodau I gyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth.  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, caiff Mick Antoinw felly, geisio cytundeb y Cynulliad I gyflwyno Bil arfaethedig Aelod ynghylch Asbestos (Adennill Costau Meddygol).

### 3. Cynnig i gymeradwyo protocol ynghylch newidiadau i'r cynnig cyllidebol

Dechreuodd yr eitem am 14.57

**NDM4948 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo'r Protocol ynghylch Newidiadau i Gynnig y Gyllideb, a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19.

Gosodwyd y Protocol ynghylch Newidiadau i Gynnig y Gyllideb gerbron y Cynulliad ar 14 Mawrth 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4. Cynnig i ddirymu Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012**

Dechreuodd yr eitem am 15.06.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Canlyniad y bleidlais:**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4940**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno bod Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 6 Mawrth 2012, yn cael ei ddirymu.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 33 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.47.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4946 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraeth leol yn gweithredu mewn modd sy'n dryloyw ac yn atebol i'r bobl y mae'n eu cynrychioli;

2. Yn credu y byddai cyflwyno refferenda ar gynnydd arfaethedig uwch na 3.5 y cant yn y dreth gyngor flynyddol yn gwella tryloywder, atebolrwydd a democratiaeth yng Nghymru; a

3. Yn croesawu camau a gymerir gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru i gyhoeddi pob gwariant dros £500.00, ac yn annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2 ac yn ei le rhoi:

Yn cydnabod bod pennu'r dreth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol a bod y tryloywder a'r atebolrwydd yn cael eu cynnal drwy'r blwch pleidleisio bob pedair blynedd.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 17 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2 dileu popeth cyn 'yn gwella' a rhoi yn ei le 'Yn credu y byddai cyflwyno system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar lefel llywodraeth leol'

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2 'ond yn credu, wrth i deuluoedd cyffredin wynebu cyfnod anodd, nad yw cost uwch cynnal refferenda lleol yn flaenoriaeth'.

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 4 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3 ac yn ei le rhoi:

'Yn croesawu camau a gymerir gan gynghorau yng Nghymru i sicrhau mwy o dryloywder ond yn cydnabod bod angen gwneud yn siwr fod y beichiau gweinyddol a roddir ar awdurdodau lleol yn sgîl mwy o dryloywder yn gymesur â hynny.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 17 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4946 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraeth leol yn gweithredu mewn modd sy'n dryloyw ac yn atebol i'r bobl y mae'n eu cynrychioli;

2. Yn cydnabod bod pennu'r dreth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol a bod y tryloywder a'r atebolrwydd yn cael eu cynnal drwy'r blwch pleidleisio bob pedair blynedd; a

3. Yn croesawu camau a gymerir gan gynghorau yng Nghymru i sicrhau mwy o dryloywder ond yn cydnabod bod angen gwneud yn siwr fod y beichiau gweinyddol a roddir ar awdurdodau lleol yn sgîl mwy o dryloywder yn gymesur â hynny.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 13 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.42.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4945 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y byddai datganoli rhagor o bwerau yn helpu i sicrhau economi gynaliadwy a ffyniannus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 17 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17.35.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4947 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth yr ystadegau newydd sy'n dangos bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng o 79 y cant i 68.4 y cant o gyfartaledd yr UE;

2. Yn nodi bod yr ystadegau hynny wedi cael eu mesur yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ac ar draws gwahanol ranbarthau a gwledydd yr UE; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth datblygu economaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar fyrder er mwyn sicrhau, pe byddai Cymru'n gymwys ar gyfer cylch ychwanegol o gyllid, y gall prosiectau sy'n canolbwyntio ar ysgogi twf economaidd ddechrau ar unwaith.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 33 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dilewch bwynt 3 a rhoi yn ei le:

'Yn nodi bod Llywodraeth Cymru law yn llaw â'i phartneriaid yn paratoi strategaethau a hefyd brosiectau posibl i'w darparu yng nghyfnod Rhaglen 2014-2019 y Cronfeydd Strwythurol, sydd ar ein gwarthaf, hynny ynghyd â'r gyfres o weithgareddau sydd wrthi'n cael eu cynnal i helpu adfywiad economaidd y Gorllewin a'r Cymoedd a'r Dwyrain.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 17 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod sector preifat cryf yn hanfodol er mwyn hybu twf economaidd yn rhannau tlotaf Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4947 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth yr ystadegau newydd sy’n dangos bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd wedi gostwng o 79 y cant i 68.4 y cant o gyfartaledd yr UE;

2. Yn nodi bod yr ystadegau hynny wedi cael eu mesur yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ac ar draws gwahanol ranbarthau a gwledydd yr UE; a

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru law yn llaw â’i phartneriaid yn paratoi strategaethau a hefyd brosiectau posibl i’w darparu yng nghyfnod Rhaglen 2014–2019 y Cronfeydd Strwythurol, sydd ar ein gwarthaf, hynny ynghyd â’r gyfres o weithgareddau sydd wrthi’n cael eu cynnal i helpu adfywiad economaidd y Gorllewin a’r Cymoedd a’r Dwyrain.

4. Yn cydnabod bod sector preifat cryf yn hanfodol er mwyn hybu twf economaidd yn rhannau tlotaf Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 13 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.33.

**8. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.38.

**NDM4944 Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Rhagdalu’r pris am drydan a nwy.

A ddylai cwmnïau ynni sicrhau bod y cartrefi tlotaf ar y tariffau isaf sydd ar gael?

Daeth y cyfarfod i ben am 19:00.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 27 Mawrth 2012**